# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad

# i'w hateb ar 20 Mehefin 2002

**R – yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y gwnaiff Prif Weinidog Cymru ateb fy llythyr, dyddiedig 17 Ebrill 2002, sy'n gofyn am ei ymateb i ddatganiad y Dirprwy Weinidog Llywodraeth Leol y dylai cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru fod yn amod unrhyw Gytundeb Partneriaeth yn y dyfodol. (WAQ18617)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth yngl•n ag adroddiad arfaethedig Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ofal iechyd arbenigol i blant Cymru, ar sut y penderfynir ar ffiniau sy'n effeithio ar gyfrifiadau 'màs critigol'. (WAQ18597) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth ar nifer y cynhalwyr ifanc sydd yng Nghymru. (WAQ18596) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi derbyn ceisiadau oddi wrth Gymdeithas y Ceiropodyddion i gyfarfod â hwy. (WAQ18598) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cael cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Cymdeithas y Ceiropodyddion. (WAQ18595) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Faint o geiropodyddion a gyflogwyd gan y GIG yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ18593) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa ganran o'r boblogaeth sydd wedi ymgynghori â cheiropodydd yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf; a pha ganran o'r boblogaeth a gafodd driniaeth gan geiropodydd. (WAQ18599) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa wybodaeth sy’n cael ei chadw’n ganolog o ran sut y penderfynir ar gyffurlyfrau o feddyginiaethau a ragnodir. (WAQ18600) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Beth yw gwariant y cyffuriau hynny a gynhwysir ar y cyffurlyfrau o feddyginiaethau a ragnodir, yn ôl pob Awdurdod Iechyd. (WAQ18601) **R**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu darparu i Grwpiau Iechyd Lleol o ran prynu cyffuriau a gynhwysir ar y cyffurlyfrau o feddyginiaethau a ragnodir. (WAQ18594) **R**

Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl daliad fferm yng Nghymru sydd angen eu profi am TB mewn gwartheg bob 12 mis, nad ydynt wedi cael eu profi ers dros 12 mis. (WAQ18602)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl daliad fferm yng Nghymru sydd angen eu profi am TB mewn gwartheg bob 2 flynedd, nad ydynt wedi cael eu profi ers dros 2 flynedd. (WAQ18603)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl daliad fferm yng Nghymru sydd angen eu profi am TB mewn gwartheg bob 4 blynedd, nad ydynt wedi cael eu profi ers dros 4 blynedd. (WAQ18604)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl daliad fferm yng Nghymru y bernir bod angen eu profi am TB mewn gwartheg bob 12 mis, nad oedd wedi cael eu profi ers dros 12 mis ar 1 Ionawr 2001, ac 1 Ionawr 2002. (WAQ18605)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl daliad fferm yng Nghymru, y bernir bod angen eu profi am TB mewn gwartheg bob 2 flynedd, nad oedd wedi cael eu profi ers dros 2 flynedd ar 1 Ionawr 2001, ac 1 Ionawr 2002. (WAQ18606)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl daliad fferm yng Nghymru, y bernir bod angen eu profi am TB mewn gwartheg bob 4 mlynedd, nad oedd wedi cael eu profi ers dros 4 mlynedd ar 1 Ionawr 2001, ac 1 Ionawr 2002. (WAQ18607)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl milfeddyg a gyflogwyd i brofi am TB mewn gwartheg ar 1 Ionawr 2001, 1 Ionawr 2002, ac 1 Mehefin 2002. (WAQ18608)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r

Trysorlys dalu am gynyddu'r gyllideb i brofi am TB mewn gwartheg yn ystod 2001, ers 1 Ionawr 2002 ac ers 29 Mai 2002. (WAQ18609)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi trafod rheoli mewnforio bwyd ac anifeiliaid gyda MAFF/DEFRA rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002. (WAQ18610)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sawl gwaith yr arolygwyd y rheolau mewnforio anifeiliaid a bwyd yn Aberdaugleddau a Chaergybi rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002. (WAQ18611)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r llythyrau y mae wedi'u hysgrifennu yn galw am reolau mewnforio mwy llym ar anifeiliaid a bwyd rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002. (WAQ18612)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi llythyrau y mae wedi'u hysgrifennu naill ai at yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am DEFRA neu at Ganghellor y Trysorlys yn cyfeirio at iawndal amaeth-ariannol ers 1 Ebrill 2002. (WAQ18613)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynghylch cynllun ymddeol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru. (WAQ18614)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog ddweud wrth yr heddlu bod ffermwr wedi lladd moch daear ac i ba orsaf heddlu y rhoddodd y wybodaeth. (WAQ18615)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd fydd pentref Aberriw yn Sir Drefaldwyn yn gallu manteisio ar fand eang. (WAQ18616)